# Asesiad o’r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh)

Asesiad Effaith integredig yw hwn, sydd â'r nod o sicrhau bod Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud penderfyniadau sy'n deg, yn ystyried tystiolaeth berthnasol, ac yn ceisio sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymunedau. **Dylid defnyddio AEDCh i lywio camau cyntaf gwneud penderfyniadau, yn ystod y cam cysyniad, nid pan fo penderfyniad wedi ei wneud eisoes, neu ar y pwynt pryd na ellir dylanwadu arno**. Mae'r asesiad effaith hwn yn ystyried ein cyfrifoldebau deddfwriaethol o dan:

- Deddf Cydraddoldeb (2010), gan gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (2015)
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ni fwriedir i'r broses AEDCh atal penderfyniadau rhag cael eu gwneud, ond sicrhau ein bod wedi ystyried eu heffaith bosibl. Mae AEDCh hefyd yn ein helpu i ganolbwyntio ar sut y gallwn leihau unrhyw effeithiau negyddol, ac mae'n rhoi tystiolaeth i ni ein bod wedi cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol.

***Am gymorth i gwblhau eich AEDCh, cysylltwch â'r Tîm Cymunedau Cysylltiedig***

## Beth yw ystyr Tegwch?

Mae Comisiwn Tegwch Casnewydd yn gorff annibynnol sy'n cynghori'r cyngor ar y defnydd gorau o adnoddau a phwerau i sicrhau'r canlyniadau tecaf i bobl leol. Mae'r Comisiwn Tegwch wedi sefydlu pedair o **Egwyddorion Tegwch** y dylid eu hystyried fel rhan o unrhyw benderfyniadau y mae'r cyngor yn eu gwneud – mae'r cwestiynau isod yn ddefnyddiol i'w hystyried cyn i chi ddechrau eich AEDCh.

| | |
|---|---|
| **Uniondeb** | A yw pobl yn cael eu trin mewn ffordd gyson, tra'n cydnabod eu gwahaniaethau (er enghraifft, angen, rhwystrau rhag gallu cyrchu gwasanaethau)? |
| | A fydd y bwlch rhwng y rhai sydd â mwy, a'r rhai sydd â llai yn cael ei leihau? |
| | A ystyriwyd buddiannau gwahanol grwpiau (gan gynnwys cymunedau lleiafrifol neu ddifreintiedig)? |
| **Blaenoriaeth** | A yw anghenion y rhai mwyaf difreintiedig ac agored i niwed ar draws y ddinas wedi cael blaenoriaeth? |
| | A ydych wedi ystyried canlyniadau anuniongyrchol posibl i gymunedau lleiafrifol / difreintiedig pan fo blaenoriaethau eraill yn cyfeirio penderfyniadau? |
| **Cynhwysiant** | A fydd lleisiau pawb y mae eich penderfyniad yn effeithio arnynt yn cael eu clywed? |
| | A yw pobl yn gallu cymryd rhan a siapio gwasanaeth, yn ogystal â'i dderbyn? |

| | |
|---|---|
| | A ydych wedi ystyried effaith eich penderfyniad ar y berthynas rhwng cymunedau, a'r mannau y maent yn eu rhannu? |
| **Cyfathrebu** | A yw penderfyniadau'n cael eu gwneud yn dryloyw ac yn gyson? |
| | Sut y caiff penderfyniadau eu cyfathrebu i bobl a gaiff eu heffeithio mewn ffordd glir, gyda'r cyfle am adborth? |

# Rhan 1: Adnabod

| | |
|---|---|
| Enw’r person sy’n cwblhau’r AEDCh | Robert Fisher |
| Rôl y person sy'n cwblhau'r AEDCh | **Swyddog Gwybodaeth Addysg a Datblygiad** |
| Dyddiad cwblhau | **23rd Chwefror 2024** |
| Pennaeth Gwasanaeth sydd wedi cymeradwyo'r AEDCh hwn | **Sarah Morgan** |

**1. Beth sy'n cael ei asesu?** *(Cliciwch ddwywaith ar y blwch(blychau) perthnasol (X) a dewiswch 'checked' fel y bo'n briodol)*

☒ Polisïau, arferion neu weithdrefnau newydd neu ddiwygiedig (sy'n addasu darparu gwasanaethau neu arferion cyflogaeth)

☒ Adolygu gwasanaeth neu ad-drefnu cynigion sy'n effeithio ar y gymuned a/neu staff

☒ Cynigion effeithlonrwydd neu arbed

☐ Pennu dyraniadau cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol newydd a chynllunio ariannol strategol

☒ Penderfyniadau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, cyflogeion neu'r gymuned ehangach gan gynnwys comisiynu / dad gomisiynu neu ddiwygio gwasanaethau

☐ Cynigion prosiect newydd sy'n effeithio ar staff, cymunedau neu fynediad i'r amgylchedd adeiledig

☐ Digwyddiadau cyhoeddus

☐ Gweithredu Strategaeth / Cynlluniau / Deddfwriaeth Genedlaethol yn lleol

☐ Cyfarwyddeb a bwriad strategol, gan gynnwys y rhai a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

☒ Cynlluniau tymor canolig i hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, cynlluniau darparu gwasanaethau a chynlluniau gwella)

☐ Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)

☐ Penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr

Penderfyniadau sy'n effeithio ar allu (gan gynnwys partneriaid allanol) i gynnig cyfleoedd a gwasanaethau Cymraeg

☐ Arall *esboniwch yn y blwch isod:*

**2. Disgrifiwch nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig cyffredinol eich penderfyniad**

Y canlyniad a fwriedir yw cael penderfyniad sy'n penderfynu ar gynnig statudol i leihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) ac ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas.

Y cynnig yw lleihau'r NDC gan 9 lle o 54 i 45 o fis Medi 2024 ymlaen ac ehangu'r ystod oedran o 4-11 i 3-11 drwy sefydlu dosbarth meithrin o fis Medi 2025 ymlaen.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas wedi gostwng. Ym mis Ionawr 2023, roedd 25% o leoedd gwag yn yr ysgol. Mae'r rhagamcanion disgyblion yn dangos y bydd nifer y lleoedd gwag yn parhau i gynyddu yn yr ysgol dros y 5 mlynedd nesaf.

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yw'r unig ysgol gynradd yn yr ardal leol heb ddosbarth meithrin ynghlwm. Yn y gorffennol, byddai disgyblion a fynychai Ysgol Feithrin Kimberley (sydd wedi'i lleoli oddi ar Heol Malpas) yn aml yn symud ymlaen i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas. Ym mis Mawrth 2021, penderfynwyd ar y cynnig i uno Ysgol Feithrin Fairoak ac Ysgol Feithrin Kimberley ar safle Ysgol Feithrin Fairoak o fis Medi 2021 ymlaen, gan leihau lleoedd meithrin a gynhelir yn ardal Malpas.

Cynigir y bydd lleihau'r NDC o 54 i 45 yn lleihau nifer y lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas; yn ei dro bydd hyn yn creu lle yn yr ysgol i sefydlu dosbarth meithrin ag 16 lle. Bydd hyn yn darparu tegwch darpariaeth o dan fodel 3-11 ar draws ardal Malpas ac yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael ac yn darparu sefydlogrwydd ar gyfer cynllunio a staffio'r dosbarthiadau yn yr ysgol.

Trwy gyflwyno'r ymgynghoriad hwn, mae'r Cyngor yn bwriadu cael barn rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd ehangach ynghylch y cynnig.

Roedd y cyfnod ymgynghori rhwng 19 Mehefin 2023 a 30 Gorffennaf 2023 ac wedi galluogi i Gyngor Dinas Casnewydd ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas geisio barn ar y cynnig.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar 11 Rhagfyr 2023 a daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 19 Ionawr 2024. Gwnaeth hyn alluogi pobl i fynegi eu barn i gefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol. Felly, mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar bellach yn gallu penderfynu ar y penderfyniad terfynol a ddylid gweithredu'r cynnig fel yr ymgynghorwyd ag ef.

**3. Pwy yw'r prif randdeiliaid a allai gael eu heffeithio gan eich penderfyniad a pha ddata sydd gennych arnynt? Ystyried cymunedau o ran lle (pobl sy'n byw yn yr un ardal ddaearyddol) a chymunedau o ddiddordeb (pobl sy'n rhannu nodweddion penodol ond sydd efallai'n byw mewn gwahanol ardaloedd daearyddol). Gall rhanddeiliaid gynnwys preswylwyr, busnesau lleol, grwpiau cymunedol, staff neu bartneriaid.**

Y prif randdeiliaid yw:

- Rhieni a theuluoedd disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas ac Ysgol Gynradd Parc Malpas;
- Athrawon a staff yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas ac Ysgol Gynradd Parc Malpas;
- Teuluoedd sydd â phlant cyn oed ysgol yn ardal Malpas.

Mae'r cod statudol yn nodi rhanddeiliaid allweddol, fodd bynnag, nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr ac mae'r Cyngor wedi nodi ac ychwanegu ato o ganlyniad i adborth a dderbyniwyd yn sgil cynigion blaenorol. Anfonir gwahoddiad i ymgysylltu â'r broses ymgynghori at y grwpiau rhanddeiliaid canlynol:

- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r holl ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt neu y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt;
- Disgyblion sy'n mynychu'r holl ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt neu y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt;
- Aelodau o staff a gyflogir ar hyn o bryd gan yr holl ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt neu y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt;
- Awdurdodau lleol cyfagos ar draws ardal Consortiwm De-ddwyrain Cymru;
- Pennaeth a Chorff Llywodraethu pob ysgol yng Nghasnewydd;
- Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd;
- Pob Cyngor Cymuned yng Nghasnewydd;
- Gweinidogion Cymru;

- Aelodau’r Senedd (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy’n cynrychioli’r ardal a wasanaethir gan yr ysgol sy’n destun y cynnig;
- Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau trafnidiaeth perthnasol;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru;
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Trefynwy;
- Yr Archesgobaeth Gatholig;
- Estyn;
- Undebau llafur athrawon a staff sy’n cynrychioli athrawon a staff yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas;
- Partneriaeth Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent;
- Comisiynydd y Gymraeg;
- Heddlu Gwent;
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Canolfan Serennu Casnewydd;
- SNAP Cymru;
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent;
- Gwasanaethau Ataliol;
- Pob darparwr addysg feithrin cofrestredig nas cynhelir yn yr ardal leol.

Roedd yr ymgynghoriad â grwpiau rhanddeiliaid hefyd yn cynnwys disgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, trwy drefniant â thîm arwain yr ysgol.

Mae'r rhanddeiliaid allweddol yn debygol o fod yn byw neu'n defnyddio gwasanaethau yn ardal Malpas, Casnewydd. Y cynnig yw lleihau'r NDC a sefydlu dosbarth meithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas. Mae’r ysgol hon wedi’i rhestru fel ysgol yr effeithir arni. Mae Ysgol Gynradd Parc Malpas hefyd wedi'i rhestru fel ysgol yr effeithir arni.

Mae ward Malpas yn cynrychioli tua 4.95% o holl boblogaeth Casnewydd. Mae'r tabl isod yn dangos cyfansoddiad poblogaeth ward Malpas yn erbyn poblogaeth Casnewydd gyfan gan ddefnyddio data amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020 o broffiliau ward Casnewydd yn Un. Mae'r data'n dangos bod gan yr ardal gyfran uwch o breswylwyr dros 65 oed na'r ffigwr ledled Casnewydd. Mae gan ward Malpas arwynebedd o 2.1 $km^2$, dwysedd y boblogaeth yn y ward yw 3,689 o bobl fesul cilomedr$^2$ sy'n cael ei raddio fel y 6ed mwyaf poblog o wardiau Casnewydd.

| (Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2020) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | **0 i 15 oed** | **16 i 44 oed** | **45 i 64 oed** | **65+ oed** |
| **Malpas** | 7,746 | 1,359 (17.5%) | 2,441 (31.5%) | 2,085 (26.9%) | 1,861 (24%) |
| **Casnewydd** | 156,447 | 32,050 (20.5%) | 58,433 (37.4%) | 39,300 (25.1%) | 26,654 (17%) |

Ychydig iawn o leoedd oedd ar gael yn nosbarthiadau meithrin Ysgol Gynradd Llys Malpas ac Ysgol Gynradd Parc Malpas ym mis Hydref 2022. Dim ond hyn a hyn o leoedd oedd ar gael yn y lleoliad nas cynhelir lleol ar Heol Malpas o'r enw Meithrinfa Tiny Tots hefyd ym mis Ionawr 2023. Cynyddodd Meithrinfa Tiny Tots nifer y lleoedd cofrestredig a gynigir o 18 i 24 yn gynnar yn 2020 oherwydd y galw.

Mae 6% o'r garfan gynradd yng Nghasnewydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgolion cynradd Cymraeg. Mae 10.5% o'r garfan gynradd yng Nghasnewydd yn mynychu ysgolion cynradd ffydd. Byddem yn disgwyl gweld canrannau tebyg o deuluoedd yn dewis y cyfryngau addysg hyn o ward Malpas. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Cyngor Dinas Casnewydd wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar ac yn cynnig sefydlu mwy o ddarpariaeth Gymraeg yng Nghasnewydd rhwng 2022-2032 a thargedau i gynyddu canran y disgyblion cynradd mewn addysg Gymraeg i 12%.

Mae'r tabl isod yn dangos bod cynnydd cyffredinol wedi bod yn y 5 mlynedd diwethaf o ran nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYADd) yn ardal Malpas. Mae cymhwysedd ar gyfer PYADd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas bron wedi dyblu dros y cyfnod 5 mlynedd ond mae'n llai na hanner cyfartaledd Casnewydd. Mae cymhwysedd yn yr ysgolion lleol eraill hefyd wedi cynyddu dros yr un cyfnod.

| Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas** | 5.4% | 5.6% | 5.9% | 7.3% | 10.7% |
| **Ysgol Gynradd Llys Malpas** | 35.3% | 34.6% | 34.5% | 38.9% | 41.3% |
| **Ysgol Gynradd Parc Malpas** | 8.8% | 10.4% | 12.3% | 12.9% | 12.9% |
| **Casnewydd** | 19.2% | 19.3% | 19.6% | 21.5% | 22.4% |
| **Cymru** | 18.4% | 18.5% | 19.3% | 21.3% | 23.0% |

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, Ysgol Gynradd Llys Malpas ac Ysgol Gynradd Parc Malpas wedi'u lleoli yn ward Malpas. Mae’r data PYADd yn cyd-fynd â’r data proffil ward. Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas ac Ysgol Gynradd Parc Malpas wedi'u lleoli yn y pedwar o'r pump Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI). Yn ward Malpas, mae nifer yr hawlwyr budd-daliadau o oedran

gweithio yn is na'r cyfartaledd yng Nghasnewydd. Mae Ysgol Gynradd Llys Malpas wedi'i lleoli yn AGEHI Malpas 2 sydd â chyfradd hawlio budd-daliadau oedran gweithio o 36.6% sydd dros ddwywaith cyfradd Casnewydd, mae Malpas 2 o fewn y 10% uchaf o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Mae pob AGEHI arall yn ward Malpas yn y 50% uchaf â'r amddifadedd lleiaf.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y plant sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn ardal Malpas.

| Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas** | 3.5% | 5.6% | 6.0% | 6.1% | 6.8% |
| **Ysgol Gynradd Llys Malpas** | 14.1% | 13.3% | 13.5% | 13.0% | 14.1% |
| **Ysgol Gynradd Parc Malpas** | 2.9% | 3.4% | 4.0% | 4.1% | 5.3% |
| **Casnewydd** | 18.1% | 17.8% | 18.0% | 17.4% | 16.9% |
| **Cymru** | 6.2% | 6.0% | 6.1% | 6.0% | 6.1% |

Mae cyfran y disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt bron wedi dyblu mewn 5 mlynedd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas ac Ysgol Gynradd Parc Malpas, mae hyn yn dangos bod cymunedau'r ysgol yn fwy amrywiol na 5 mlynedd yn ôl, er bod cyfran y disgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn parhau i fod yn sylweddol is na chyfartaledd Casnewydd.

| Disgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas** | 11.3% | 13.2% | 13.5% | 13.9% | 15.6% |
| **Ysgol Gynradd Llys Malpas** | 19.0% | 19.4% | 18.8% | 18.6% | 19.6% |
| **Ysgol Gynradd Parc Malpas** | 6.5% | 9.7% | 13.9% | 11.8% | 13.6% |
| **Casnewydd** | 26.7% | 27.5% | 28.1% | 28.3% | 29.2% |
| **Cymru** | 12.2% | 12.5% | 12.7% | 12.9% | 13.3% |

Mae cyfran y Disgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi tyfu yn ardal Malpas ac wedi dyblu yn Ysgol Gynradd Parc Malpas dros 5 mlynedd, ond mae'r ysgolion yn parhau i fod yn sylweddol is na chyfartaledd Casnewydd.

Yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol, cafodd Adroddiad Ymgynghori ei baratoi a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor, a bydd yn cael ei ddefnyddio i benderfynu a oes angen cyhoeddi hysbysiad statudol neu beidio. Mae cyhoeddi hysbysiad statudol yn galluogi rhanddeiliaid i gofnodi gwrthwynebiadau ffurfiol i'r cynnig. Cafodd yr AEDCh ei ddiweddaru ar y cam hwn.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar 11 Rhagfyr 2023 a daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 19 Ionawr 2024. Gwnaeth hyn alluogi pobl i fynegi eu barn i gefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol. Felly, mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar bellach yn gallu penderfynu ar y penderfyniad terfynol a ddylid gweithredu'r cynnig.

# Rhan 2: Ymgysylltu

Wrth gwblhau'r adran hon, mae angen i chi ystyried a oes gennych ddigon o wybodaeth am farn a phrofiadau pobl y bydd eich penderfyniad yn effeithio arnynt. Os na wnewch hynny, efallai y bydd angen i chi ymgymryd â chyfnod o ymgysylltu / ymgynghori cyn parhau. Mae AEDCh yn ddogfen fyw, felly gellir ei diweddaru gyda chanfyddiadau'r ymgynghoriad, a'i diwygio yn ôl yr angen yn ystod y broses o wneud penderfyniadau.

Mae gan y cyngor ddyletswydd i ymgynghori ac ymgysylltu â phobl a allai brofi anghydraddoldebau o ganlyniad i'ch penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys pobl **sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig** (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) a phobl sydd **â phrofiad bywyd o anfantais economaidd-gymdeithasol**. Mae Addewid Ieuenctid y cyngor hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau y **gwrandewir ar bob person ifanc yng Nghasnewydd a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt**.

Mae gan y cyngor ddyletswydd hefyd i sicrhau bod unrhyw ymgynghoriad ar gael yn ddwyieithog (yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg), ac efallai yr hoffech ystyried unrhyw ieithoedd cymunedol eraill a siaredir gan bobl a allai gael eu heffeithio gan eich penderfyniad. Isod ceir rhai cwestiynau y dylid eu cynnwys mewn unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus sy'n ymwneud â phenderfyniad a allai effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd:

1. A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?
2. Os ydych o'r farn y caiff effaith negyddol, pa gamau y gallem eu cymryd i leihau neu osgoi hyn a gwella'r effeithiau cadarnhaol?
3. A ydych yn credu y bydd y penderfyniad / polisi arfaethedig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**1. Sut ydych chi wedi ymgysylltu â phobl a allai gael eu heffeithio gan eich penderfyniad (y rhanddeiliaid rydych chi wedi'u nodi)?**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol.

Roedd y cyfnod ymgynghori rhwng 19 Mehefin 2023 a 30 Gorffennaf 2023 ac yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau sydd wedi cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori.

**Dosbarthu Gwybodaeth**

Yn ogystal â'r ddogfen ymgynghori ffurfiol (y brif ddogfen) cafodd fersiwn Crynodeb Bob Dydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ei chynhyrchu hefyd, er mwyn helpu i sicrhau bod y broses ymgynghori yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb dan sylw. Roedd yr holl ddogfennau ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg a chroesawyd cwestiynau a phryderon yn Gymraeg a Saesneg.  Byddai unrhyw gwestiynau neu bryderon a gafodd eu cyflwyno yn Gymraeg, wedi cael eu hateb yn yr un iaith.

Roedd/mae copïau digidol o'r 2 dogfen ar gael ar-lein ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd ar https://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx. Gellid fod wedi gofyn am gopïau caled drwy e-bostio school.reorg@newport.gov.uk neu drwy ffonio 01633 656656, er na dderbyniwyd unrhyw geisiadau o'r fath.

Cynigiwyd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori lawn a'r Fersiwn Crynodeb Bob Dydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas fel eu bod ar gael i staff, disgyblion a rhieni.

Roedd y dogfennau ymgynghori yn cynnwys ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad y gellid bod wedi ei hanfon i'r cyfeiriad a ddarparwyd, drwy'r post neu dros e-bost. Gellid cyflwyno'r ymatebion hefyd ar-lein o'r ddolen a ddarparwyd ar dudalennau gwe ad-drefnu ysgolion y Cyngor. Gellid cyflwyno cwestiynau a phryderon yn ysgrifenedig hefyd drwy'r post neu dros e-bost.   Roedd y ffurflen ymateb yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cefnogi'r cynnig; yn cefnogi'r cynnig yn rhannol; neu ddim yn cefnogi'r cynnig; a darparwyd blwch testun i roi rhesymau neu sylwadau. Roedd y ffurflen ymateb hefyd yn gofyn a fyddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac a fyddai'r cynnig yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cafodd gwahoddiad i gymryd rhan yn y broses ymgynghori ei e-bostio at y rhestr rhanddeiliaid uchod, gan gynnwys rhieni / gofalwyr, disgyblion a staff Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas.  Cafodd negeseuon e-bost rhanddeiliaid hefyd eu hanfon at bartneriaid addysg Cyngor Dinas Casnewydd. Cafodd y cynnig ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a gwefan Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas. Mae gwybodaeth yr ymgynghoriad wedi cael ei rhannu ar dudalennau Facebook a Twitter Cyngor Dinas Casnewydd.

**Sesiynau Galw Heibio**

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 2 sesiwn galw heibio yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas gyda'r rhai hynny yr oedd y cynnig yn effeithio arnynt. Roedd swyddogion y cyngor a chynrychiolydd o dîm Arweinyddiaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas wrth law i esbonio'r cynnig mewn mwy o fanylder ac i ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon a godwyd gan y cyhoedd. Cynhaliwyd Sesiwn Galw Heibio 1 ar ddydd Mawrth 27 Mehefin 2023 ac nid oedd unrhyw randdeiliaid yn bresennol.

Cynhaliwyd Sesiwn Galw Heibio 2 ar ddydd Mawrth 4 Gorffennaf 2023 ac roedd 1 rhanddeiliad yn bresennol, sef rhiant plentyn yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas.

Roedd copïau caled o'r holl fersiynau o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn y ddwy sesiwn. Cynigiwyd ffurflen ymateb yr ymgynghoriad i'r holl fynychwyr ei chwblhau yn y ddwy sesiwn, cwblhaodd y rhanddeiliaid a fynychodd sesiwn galw heibio 2 y ffurflen.

**Sesiwn Llais y Disgybl**

Roedd y Cyngor yn awyddus i gael barn dysgwyr, a hwyluswyd hyn gyda disgyblion o wahanol grwpiau blwyddyn yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas ddydd Mawrth 4 Gorffennaf 2023. Daeth 10 disgybl i'r sesiwn, a rhoddwyd cyfle iddynt ofyn cwestiynau a chwblhau arolygon.

**Hysbysiad Statudol**

Roedd y cyfnod rhybudd statudol ar waith rhwng 11 Rhagfyr 2023 a 19 Ionawr 2024 ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas. Cyhoeddwyd hysbysiadau ar gatiau'r ysgol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas. Anfonwyd e-bost at yr holl randdeiliaid, gan gynnwys y rheiny a wnaeth ddewis derbyn diweddariadau ar y cynnig trwy'r ffurflen ymateb yn ystod y cam ymgynghori, gan roi gwybod iddynt fod yr hysbysiad statudol wedi'i gyhoeddi. Gwnaeth cyfnod yr hysbysiad statudol alluogi pobl i fynegi eu safbwyntiau ar ffurf cefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu. Gall Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar bellach benderfynu ar y penderfyniad terfynol.

**2. Beth ydych chi'n ei wybod am farn neu brofiadau pobl y gallai eich penderfyniad effeithio arnynt?**

Y bobl yr effeithir arnynt gan y penderfyniad yw rhieni / gofalwyr, disgyblion a staff Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a theuluoedd ifanc yn ward Malpas. Gallai athrawon a staff Ysgol Gynradd Parc Malpas gael eu heffeithio os yw'r cynnig yn cael effaith ar niferoedd disgyblion yn yr ysgol honno.

Mae'r ffigurau PYADd a SIY ar gyfer yr ysgol yn dangos nad yw cymuned yr ysgol dan anfantais economaidd ac mae'r mwyafrif helaeth yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Mae'r ffigurau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar gyfer cymuned yr ysgol wedi cynyddu dros y 5 mlynedd diwethaf ond mae'r ffigurau'n dangos bod cymunedau'r ysgol o ethnigrwydd Gwyn Prydeinig yn bennaf.

Mae disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a staff yr ysgol yn rhanddeiliaid allweddol yn y cynnig hwn gan y gallent weld newidiadau i strwythur eu dosbarth. Ar hyn o bryd mae 281 o ddisgyblion ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn y dosbarthiadau Derbyn – Blwyddyn 6. Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm niferoedd y disgyblion yn yr ysgol yn ôl grŵp blwyddyn.

| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas (Ysgol Gyfan) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd Disgyblion – CYBLD Ionawr 2023** | | | | | | | | |
| **Blwyddyn** | **Derbyn** | **Blwyddyn 1** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3** | **Blwyddyn 4** | **Blwyddyn 5** | **Blwyddyn 6** | **Cyfanswm** |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas** | 22 | 36 | 37 | 45 | 48 | 52 | 41 | **281** |

Cafwyd ymgynghoriad gyda'r rhanddeiliaid a restrir uchod a chafwyd adborth / safbwyntiau gan:

- Ymatebion ar ffurflen (yn ddigidol a thrwy gopïau caled)
- Sesiynau galw heibio
- Sesiwn llais y disgybl

## Canlyniadau Ymatebion ar Ffurflen

Derbyniwyd 33 ymateb drwy'r ffurflen ymateb, gyda 58% yn cefnogi'r cynnig. Roedd llawer o'r ymatebion hyn a oedd yn cefnogi'r cynnig yn nodi y byddai sefydlu meithrinfa yn hanfodol i'r ysgol ac y dylai fod wedi cael ei ystyried mewn blynyddoedd blaenorol.

Roedd 30% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig 'yn rhannol' a dywedodd y mwyafrif eu bod yn cefnogi'r angen i sefydlu dosbarth meithrin, ond nid oedd rhai yn cytuno â'r gostyngiad mewn maint dosbarthiadau. Mynegwyd pryderon am ddosbarthiadau oedran cymysg, yr effaith y gallai hyn ei chael ar y plant presennol sy'n mynychu'r ysgol a chyllid yr ysgol. Mae'r pryderon hyn wedi'u nodi a'u trafod yn yr Adroddiad Ymgynghori a gyhoeddwyd ar dudalennau gwe Cyngor Dinas Casnewydd ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas.

Roedd 12% o'r ymatebwyr yn erbyn y cynnig a mynegwyd pryderon am nifer y lleoedd yn yr ardal ac y gallai sefydlu meithrinfa effeithio'n negyddol ar ddarparwyr preifat, y goblygiadau staffio i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, cyllid i addasu'r ardaloedd angenrheidiol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a'r gostyngiad mewn lleoedd disgyblion. Mae'r pryderon hyn wedi'u nodi a'u trafod yn yr Adroddiad Ymgynghori a gyhoeddwyd ar dudalennau gwe Cyngor Dinas Casnewydd ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas.

**Sesiynau Galw Heibio**

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 2 sesiwn galw heibio yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas gyda'r rhai hynny yr oedd y cynnig yn effeithio arnynt.

**Sesiwn Galw Heibio 1**

Ni ddaeth unrhyw randdeiliaid i sesiwn galw heibio 1.

**Sesiwn Galw Heibio 2**

Daeth un Rhanddeiliad i’r ail ddigwyddiad galw heibio, sef rhiant disgybl a oedd yn mynychu'r ysgol. Roedd y rhanddeiliaid yn cefnogi’r cynnig ac roedd yn gadarnhaol ynghylch ymestyn yr ystod oedran i 3-11.

Roedd copïau caled o'r holl fersiynau o'r ddogfen ymgynghori ar gael i fynychwyr y ddwy sesiwn. Cynigiwyd ffurflen ymateb yr Ymgynghoriad i'r holl fynychwyr i'w chwblhau fel y gallai eu sylwadau a'u barn ar y cynnig gael eu cofnodi yn yr adroddiad ymgynghori hwn. Fe wnaeth yr un mynychwr fanteisio ar y cynnig o gwblhau copi caled o’r ffurflen yn y sesiwn galw heibio.

**Sesiwn Llais y Disgybl**

Yn ystod y sesiwn, cafodd y disgyblion gyfle i ofyn cwestiynau / gwneud sylwadau. Cododd y disgyblion y materion canlynol:

- Lle fydd y dosbarth meithrin yn cael ei sefydlu yn yr ysgol?
- Sut fydd y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn cael eu gwahanu?
- A fydd gan y dosbarth meithrin fynediad i'w ardal chwarae tu allan ei hun?

Rhoddwyd cyfle i'r disgyblion gwblhau copïau caled o'r Ffurflen Ymateb yn ystod y sesiwn, ond ni chafwyd ymatebion.

**Hysbysiad Statudol**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion na gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu. Gall Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a'r Aelod Cabinet dros Addysg a’r Blynyddoedd Cynnar bellach benderfynu ar y cynnig.

# Rhan 3: Asesu

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i chi asesu effaith bosibl eich penderfyniad ar amrywiaeth o grwpiau a allai brofi anfanteision penodol. Dylai eich asesiad gael ei gefnogi gan dystiolaeth – naill ai o'ch ymgysylltiad / ymgynghoriad eich hun, ymgysylltu tebyg neu flaenorol, yr hyn yr ydych eisoes yn ei wybod am y bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaeth, neu o ffynonellau gwybodaeth lleol a chenedlaethol.

Mae dogfennau defnyddiol sy'n nodi gwybodaeth am sut mae anghydraddoldebau yn effeithio ar gymunedau yn cynnwys Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – A yw Cymru'n Decach? ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned COVID-19 gan y cyngor. Efallai y bydd eich penderfyniad yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol – os felly, rhowch groes yn y ddau flwch.

## 1. Effaith ar bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig

Caiff Nodweddion Gwarchodedig eu diffinio o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a disgrifiant grwpiau o bobl sy'n cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu, naill ai yn y gweithle, neu drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau. Rhaid i'r cyngor ystyried sut y gallai penderfyniadau effeithio ar bobl yn wahanol oherwydd nodwedd warchodedig, a sut y gellid lleihau unrhyw effaith negyddol. Gellir dod o hyd i ganllawiau cenedlaethol ar asesu effeithiau cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yma. Gallwch hefyd gael cyngor pellach ac enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol a negyddol yma.

| **Nodwedd Warchodedig** | Effaith: **Cadarnhaol** | **Negyddol** | **Nid y naill na'r llall** | **Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adrannau isod, gan ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod yn rhaid i'r cyngor:**<br><br>1. Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws gwahanol grwpiau<br>2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol<br>3. Helpu i gael gwared ar wahaniaethu / aflonyddu / erlid yn anghyfreithlon? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Oedran** | ☒ | ☐ | ☐ | Bydd y cynnig yn cynnwys sefydlu dosbarth meithrin ag 16 lle llawn amser yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas. Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yw'r unig ysgol gynradd yn y clwstwr nad yw'n cynnig dosbarth meithrin. Yn y gorffennol, byddai disgyblion a fynychai Ysgol Feithrin Kimberley yn aml yn symud ymlaen i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas. Cymeradwywyd cynnig i gyfuno Ysgol Feithrin Kimberley ac Ysgol Feithrin Fairoak yn un ysgol feithrin ar safle Ysgol Feithrin Fairoak o fis Medi 2021 ac fe wnaeth hyn leihau lleoedd yn ardal Betws / Malpas gan 80 o leoedd.<br><br>Bydd y cynnig yn ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4-11 i 3-11, ac o ganlyniad yn creu 16 o leoedd meithrin cyfwerth ag amser llawn yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas. Bydd hyn yn galluogi plant |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith: Cadarnhaol | Negyddol | Nid y naill na'r llall | Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adrannau isod, gan ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod yn rhaid i'r cyngor:<br><br>1. Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws gwahanol grwpiau<br>2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol<br>3. Helpu i gael gwared ar wahaniaethu / aflonyddu / erlid yn anghyfreithlon? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | dalgylch Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas i wneud cais am leoedd meithrin yn eu hysgol leol. Bydd hyn yn eu galluogi i feithrin cyfeillgarwch a fydd yn tyfu trwy gydol eu bywyd ysgol.<br><br>Mae Meithrinfa Chuckles a Meithrinfa Tiny Tots ill dau yn lleoliadau nas cynhelir. Oherwydd galw yn y blynyddoedd diwethaf adeiladwyd estyniad i Feithrinfa Chuckles yn 2021/22 a chynyddodd nifer y lleoedd cofrestredig a gynigir o 24 i 32. Cynyddodd Meithrinfa Tiny Tots nifer y lleoedd cofrestredig a gynigir o 18 i 24 yn dilyn galw yn gynnar yn 2020. Mae hyn yn dangos bod galw am leoedd meithrin yn ardal Malpas a Betws ac ni fyddai cyflwyno meithrinfa ag 16 lle yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn cael llawer o effaith ar y lleoliadau nas cynhelir sydd naill ai'n llawn neu sydd â dim ond hyn a hyn o leoedd.<br><br>Bydd y cynnig yn lleihau NDC yr ysgol gan 9 lle i 45 o 54, mae'r rhagamcanion ysgol yn dangos y bydd hyn yn addas ar gyfer y galw yn y dyfodol agos. |
| | | | | |
| **Anabledd** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Ailbennu Rhywedd** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Priodas neu bartneriaeth sifil** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Beichiogrwydd neu famolaeth** | ☒ | ☐ | ☐ | Mae'r cynnig yn ceisio sefydlu mwy o leoedd meithrin mewn ysgolion yn yr ardal leol. Felly, gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar deuluoedd sydd â phlant a/neu sy'n bwriadu cael plant yn yr ardal. |
| | | | | |
| **Hil** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |

| **Nodwedd Warchodedig** | Effaith: Cadarnhaol | Negyddol | Nid y naill na'r llall | **Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adrannau isod, gan ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod yn rhaid i'r cyngor:** 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws gwahanol grwpiau 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i gael gwared ar wahaniaethu / aflonyddu / erlid yn anghyfreithlon? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Crefydd neu Gred neu ddiffyg cred** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn ysgol ffydd Gristnogol sy'n parchu hawliau plant i ddilyn eu crefydd eu hunain fel a ddiogelir o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. |
| | | | | |
| **Rhyw** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn ysgol ffydd Gristnogol sy'n parchu hawliau plant ac sydd wedi ymrwymo i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at amrywiaeth rhywedd, cydraddoldeb a pherthnasoedd parchus. |
| | | | | |

## 2. Effaith ar y Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) yn nodi bod yn rhaid i'r cyngor ystyried yr effeithiau (cadarnhaol a negyddol) ar y Gymraeg ar gyfer pob penderfyniad polisi. Am arweiniad pellach ar ystyriaethau'r Gymraeg gweler yma.

| | Effaith: | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol | Negyddol | Nid y naill na'r llall | |
| | | | | |
| **Y Gymraeg** | ☐ | ☐ | ☒ | Yn hydref 2021 roedd 174 o ddisgyblion o glwstwr Uwchradd Casnewydd yn mynychu lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg o fewn pedair ysgol gynradd Gymraeg Casnewydd. Mae gan yr ysgol ddalgylch cyfrwng Cymraeg, Ysgol Gymraeg Ifor Hael (sefydlwyd 2008) sydd wedi'i lleoli yn ward Betws, NDC o 30 a chapasiti o 210 gyda 30 o leoedd meithrin rhan amser. Ar hyn o bryd mae Ysgol Gymraeg Ifor Hael yn cynnig sesiwn foreol ar gyfer ei darpariaeth feithrin, felly mae potensial i Ysgol Gymraeg Ifor Hael ddyblu ei chynnig meithrin yn y dyfodol drwy gynnig sesiwn prynhawn os oes cynnydd yn y galw am leoedd meithrin cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.<br><br>Agorodd y 4edd ysgol gynradd Gymraeg, Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ym mis Medi 2021 fel egin ysgol yn ei lleoliad dros dro yng Nghaerllion. Ar hyn o bryd mae 60 o leoedd cynradd oedran statudol ar gael ar gyfer 2022/23 ar draws dosbarthiadau Derbyn a Blwyddyn 1. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol 14 disgybl ar y gofrestr o gyfrifiad disgyblion Hydref 2022 gan adael gwarged o 76.7%.<br><br>Mae'r cynnig yn effeithio ar ysgol cyfrwng Saesneg. Y cynnig yw lleihau'r NDC ac felly lleoedd yn y sector cyfrwng Saesneg. Ni fyddai'r gostyngiad mewn lleoedd yn effeithio'n uniongyrchol ar y sector cyfrwng Cymraeg. Ni fyddai'r gostyngiad mewn lleoedd yn effeithio'n uniongyrchol ar y sector cyfrwng Cymraeg, ond gallai annog ceisiadau am leoedd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol.<br><br>Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ledled Casnewydd fel yr amlinellir yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd. Cydnabyddir na fydd y cynnig hwn yn cyfrannu at dargedau'r Cyngor o ran Cymraeg 2050. |
| | | | | |

1. **Disgrifiwch sut rydych wedi sicrhau bod eich ymgysylltiad wedi ystyried barn siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd ac effaith eich penderfyniad ar y Gymraeg.**

Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal yn ddwyieithog a'i rannu gydag ysgolion gan gynnwys ysgolion Cymraeg Casnewydd. Bydd modd cipio barn siaradwyr Cymraeg gan y bydd yr holl ddogfennaeth ymgynghori yn cael ei chyfieithu a'i dosbarthu a'i rhannu ag unrhyw ysgolion yr effeithir arnynt.

Roedd croeso i'r holl ymatebion gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac os oedd angen, byddai ymateb wedi cael ei ddarparu yn Gymraeg.

Er mwyn sicrhau bod ymgynghoriad cydradd yn cael ei gyflawni yn Gymraeg ac yn Saesneg, bydd Cyngor Dinas Casnewydd:

- yn sicrhau bod yr holl ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd ar gael yn ddwyieithog
- yn sicrhau bod holl negeseuon e-bost rhanddeiliaid yn ddwyieithog
- yn sicrhau bod fersiwn Gymraeg o dudalen we'r ymgynghoriad ar wefan CDC
- yn darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd mewn sesiynau galw heibio lle y bo'n briodol
- yn annog rhanddeiliaid i ymateb i'r ymgynghoriad yn Gymraeg
- yn sicrhau bod yr holiadur ymgynghori yn gofyn cwestiynau penodol yn ymwneud ag effaith gadarnhaol neu negyddol bosibl y prosiect ar y cyfle i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg

Atebodd 33 o'r 33 o ymatebwyr y cwestiwn: *'A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?'* Atebodd 10 ymatebydd (30%) 'Cadarnhaol', atebodd 21 o ymatebwyr (64%) 'Dim effaith', ac atebodd 2 ymatebydd (6%) 'Negyddol', er, ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach.

Mewn ymateb i'r cwestiwn *'A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?' Atebodd 1 ymatebydd 'Ydw'. Ond, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach.*

Ar ôl yr ymgynghoriad, ystyriodd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas ac Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar Cyngor Dinas Casnewydd y safbwyntiau a fynegwyd a phenderfynwyd bwrw ymlaen â'r cynnig. Cyhoeddwyd hysbysiad statudol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yn Gymraeg a Saesneg a rhoddwyd hysbysiadau dwyieithog ar gatiau'r ysgol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas.

Anfonwyd e-bost dwyieithog at yr holl randdeiliaid, gan gynnwys y rheiny a wnaeth ddewis derbyn diweddariadau ar y cynnig trwy'r ffurflen ymateb yn ystod y cam ymgynghori, gan roi gwybod iddynt fod yr hysbysiad statudol wedi'i gyhoeddi. Roedd croeso i'r holl ymatebion/gwrthwynebiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac byddai ymateb yn cael ei ddarparu yn Gymraeg yn ôl yr angen.

## 3. Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith sy'n helpu sefydliadau i ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol, a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau hirdymor. Isod, ystyriwch sut mae eich penderfyniad yn hyrwyddo, yn datblygu, neu'n gwrth-ddweud y 5 ffordd o weithio sy'n sail i'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Gallwch weld canllawiau pellach ar ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy yma.

| | | |
|---|---|---|
| Hirdymor | *Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.* | Mae'r cynnig yn ceisio lleihau'r NDC o 54 i 45 ac ymestyn yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas.<br><br>Bydd hyn yn arwain at leihau capasiti'r ysgol o 378 i 315 o fis Medi 2024 ymlaen. Dros y 5 mlynedd diwethaf mae nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas wedi gostwng. Mae'r rhagamcanion disgyblion yn dangos y bydd niferoedd yn yr ysgol yn parhau i ostwng dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r NDC arfaethedig o 45 yn fwy na'r gyfradd genedigaethau flynyddol gyfartalog yn y dalgylch o 35, a rhagwelir y bydd dal digon o leoedd yn yr ardal leol a chlwstwr Ysgol Uwchradd Casnewydd.<br><br>Bydd y gostyngiad mewn capasiti yn galluogi Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas i ymestyn ystod oedran yr ysgol i gefnogi sefydlu dosbarth meithrin. Bydd hyn yn sicrhau bod pob ysgol gynradd yng nghlwstwr Uwchradd Casnewydd yn cael dosbarthiadau meithrin, ac yn darparu buddion hirdymor o ran addysg a datblygiad. |
| Atal | *Neilltuo adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu* | Mae'r cynnig yn ceisio lleihau'r NDC o 54 i 45 gan leihau capasiti'r ysgol o 378 i 315. O fewn y ddogfen 'Arfer presennol ar y defnydd o leoedd ysgol dros ben', mae Llywodraeth Cymru yn argymell gwarged o 10% o leoedd ysgol. Ym mis Ionawr 2023 roedd gan Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas 281 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan adael 25% o leoedd gwag. Mae'r rhagamcanion |

| | | |
|---|---|---|
| | | disgyblion yn dangos y bydd nifer y lleoedd gwag yn parhau i gynyddu yn yr ysgol dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r rhagamcanion disgyblion yn awgrymu erbyn 2026/27 mai dim ond 243 o ddisgyblion fydd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, gan olygu 35.71% o leoedd gwag. Bydd y gostyngiad yn y NDC yn gwneud cynllunio a rheoli'r ysgol yn haws ac yn fwy cost-effeithiol, ac yn galluogi sefydlu dosbarth meithrin.<br><br>Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas yw'r unig ysgol gynradd yng nghlwstwr Ysgol Uwchradd Casnewydd nad yw'n cynnig dosbarth meithrin. Bydd sefydlu dosbarth meithrin yn cynyddu nifer y lleoedd meithrin a ariennir sydd ar gael ledled y ddinas ac yn galluogi pontio cadarnhaol i addysg prif ffrwd statudol. Bydd y dosbarth meithrin yn defnyddio ystafell ddosbarth y gellir ei darparu oherwydd niferoedd isel o ddisgyblion sy'n mynychu ar hyn o bryd. Trwy gyflwyno'r cynnig hwn, y bwriad yw darparu tegwch darpariaeth o dan fodel 3-11 ar draws pob ysgol gynradd yng nghlwstwr Ysgol Uwchradd Casnewydd. Bydd sefydlu dosbarth meithrin yn cyfrannu tuag at Nodau Lles Cyngor Dinas Casnewydd o wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth, ac i adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy. |
| Integreiddio | *Ystyried sut y gall amcanion lles cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.* | Mae ymgynghoriad statudol ffurfiol wedi'i gynnal ac mae'r hysbysiad statudol wedi'i gyhoeddi. Mae'r rhain wedi'u cefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried effaith y cynnig. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Nodau Lles "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Chymru â chymunedau cydlynol" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Lles eraill. At hynny, mae'r cynnig hwn yn cefnogi cynllun lles BGC Casnewydd yn Un ar gyfer 2018-2023, a Nod Lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.<br><br>Cyngor Dinas Casnewydd yw'r awdurdod derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, a bydd ceisiadau am dderbyniadau yn parhau i gael eu hasesu yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor. |

| | | |
|---|---|---|
| Cydweithio | *Cydweithio i gyflawni amcanion* | Mae hwn yn ymgynghoriad ffurfiol ar gynnig ar y cyd a gyflwynwyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, ynghyd â Chyngor Dinas Casnewydd.<br><br>Cynhelir ymgynghoriad statudol ffurfiol gyda'r cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid yn cael ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith.<br><br>Mae ymgynghoriad statudol ffurfiol wedi'i gynnal ac mae'r hysbysiad statudol wedi'i gyhoeddi. Mae'r rhain wedi'u cefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried effaith y cynnig.<br><br>Cafodd hysbysiad statudol ei gyhoeddi i alluogi pobl i fynegi eu safbwyntiau ar ffurf cefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. Cafodd yr AEDCh ei ddiweddaru ar y cam hwn. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu. Bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar bellach yn penderfynu ar y penderfyniad terfynol. |
| Cynnwys Pobl | *Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a cheisio eu barn - gan sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.* | Bu Cyngor Dinas Casnewydd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid (sydd wedi'u rhestru yn Adran 3) a'r ysgolion yr effeithir arnynt gan y cynnig. Cynhaliwyd sesiynau galw heibio cyhoeddus, lle'r oedd swyddogion y cyngor ac aelodau o dîm Arweinyddiaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas wrth law i esbonio'r cynnig ac ateb cwestiynau.<br><br>Roedd y dogfennau ymgynghori ar gael ar-lein yn https://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx ac roedd dogfennau ymgynghori papur ar gael ar gais. Dosbarthwyd sawl copi o'r dogfennau i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas.<br><br>Roedd dogfen ymgynghori Plant a Phobl Ifanc ar gael ac wedi cael ei dosbarthu i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas. Dosbarthwyd y rhain hefyd yn y sesiwn llais y disgybl a gynhaliwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas i gael barn y disgyblion ar y cynnig.<br><br>Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol, e-bostiwyd yr holl randdeiliaid (sydd wedi'u rhestru yn adran 3, gan gynnwys y rheiny a wnaeth ddewis derbyn diweddariadau ar y cynnig trwy'r ffurflen ymateb yn ystod y cam ymgynghori), gan roi cyfle iddynt wrthwynebu'r cynnig. |

## 4. Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol wedi'i nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor, wrth wneud penderfyniadau strategol, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Teimlir anghydraddoldebau o ran canlyniadau ar eu mwyaf difrifol mewn meysydd fel iechyd, addysg, gwaith, safonau byw, cyfiawnder a diogelwch personol, a chyfranogiad.

Diffinnir 'penderfyniad strategol' gan Lywodraeth Cymru fel penderfyniad **sy'n effeithio ar sut mae'r cyngor yn cyflawni ei ddiben statudol dros gyfnod sylweddol o amser ac nad yw'n cynnwys penderfyniadau 'o ddydd i ddydd' arferol.** Mae penderfyniadau strategol yn cynnwys:

- Cynlluniau Corfforaethol
- Pennu amcanion strategol lles, cydraddoldeb ac amcanion eraill
- Newidiadau i wasanaethau cyhoeddus, neu eu datblygu
- Cynllunio ariannol strategol
- Datblygu polisïau strategol

Os nad ydych yn credu bod eich penderfyniad yn bodloni'r diffiniad hwn, ac nad ydych yn bwriadu cynnal Asesiad Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn yr adran hon, rhowch eich rhesymeg isod.  Bydd unrhyw benderfyniad a gyflwynir i Aelod Cabinet, yn y Cabinet neu'r Cyngor, yn cael ei ystyried yn benderfyniad strategol.

Os yw eich penderfyniad yn bodloni'r diffiniad, ystyriwch effaith eich penderfyniad ar y grwpiau dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a meysydd anghydraddoldeb a allai godi o anfantais economaidd-gymdeithasol a geir yn y matrics isod. Nid yw'r grwpiau a restrir yn gynhwysfawr a dylech ystyried unrhyw grwpiau ychwanegol sy'n berthnasol i'ch penderfyniad a allai brofi anfantais economaidd-gymdeithasol yn y ffyrdd canlynol:

- **Incwm Isel / Tlodi Incwm** - yn methu fforddio cynnal taliadau rheolaidd fel biliau, bwyd, dillad, trafnidiaeth ac ati.
- **Cyfoeth Isel a/neu ddim Cyfoeth** - digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a thalu biliau ond nid oes ganddynt unrhyw gynilion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl ac nid oes unrhyw ddarpariaethau ar gyfer y dyfodol
- **Amddifadedd Materol** - methu â chael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, trwsio / disodli nwyddau trydanol sydd wedi torri, cartref cynnes, hobïau ac ati)
- **Amddifadedd Ardal** - lle rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus)
- Cefndir Economaidd-Gymdeithasol – er enghraifft, addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni

Nodwch effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'r ddau lle maent yn gymwys, a difrifoldeb yr effaith hon drwy godio rhannau'r grid yn seiliedig ar yr isod. *Os nad oes effaith/neu ei fod yn niwtral, gadewch yn wag.*

| **Effaith Negyddol** | | **Effaith Gadarnhaol** | |
|---|---|---|---|
| N1 | Effaith negyddol – ysgafn | P1 | Effaith gadarnhaol – ysgafn |
| N2 | Effaith negyddol – cymedrol | P2 | Effaith gadarnhaol – cymedrol |
| N3 | Effaith negyddol – sylweddol | P3 | Effaith gadarnhaol – sylweddol |
| N4 | Potensial ar gyfer effaith negyddol (ond yn ansicr) | P4 | Potensial ar gyfer effaith gadarnhaol (ond yn ansicr) |

| **Meysydd anghydraddoldeb a allai godi o anfantais economaidd-gymdeithasol – diffiniadau** |
|---|
| **Addysg**: Y gallu i fod yn wybodus, i ddeall a rhesymu, ac i gael y sgiliau a'r cyfle i gymryd rhan yn y farchnad lafur ac mewn cymdeithas |
| **Gwaith:**Y gallu i weithio mewn amodau cyfiawn a ffafriol, i gydnabod gwerth eich gwaith, hyd yn oed os nad yw'n ddi-dâl, i beidio â chael ei atal rhag gweithio ac i fod yn rhydd o gaethwasiaeth, llafur gorfodol a mathau eraill o gamfanteisio |
| **Safonau Byw:** Y gallu i fwynhau safon byw gyfforddus, mewn tai priodol, gydag annibyniaeth a diogelwch, ac i gael gofal a chefnogaeth pan fo angen. |

| |
|---|
| **Cyfiawnder, Diogelwch Personol a Diogelwch Cymunedol**: Y gallu i osgoi marwolaethau cynamserol, byw mewn diogelwch, a gwybod y cewch eich diogelu a'ch trin yn deg gan y gyfraith |
| **Iechyd:** Y gallu i fod yn iach, yn gorfforol ac yn feddyliol, bod yn rhydd mewn materion sy'n ymwneud â pherthnasoedd rhywiol ac atgenhedlu, a chael ymreolaeth dros ofal a thriniaeth a chael gofal yng nghamau olaf eich bywyd |
| **Cyfranogiad:** Y gallu i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ac mewn cymunedau, cael mynediad at wasanaethau, gwybod y caiff eich preifatrwydd ei barchu, a mynegi eich hun |

| **Grwpiau** | **Meysydd anghydraddoldeb** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Safonau Byw | Gwaith | Iechyd | Addysg | Cyfiawnder a diogelwch cymunedol | Cyfranogiad | Amgylchedd Ffisegol |
| Plant sy'n byw mewn tlodi | | | | P1 | | P4 | |
| Aelwydydd incwm isel heb blant dibynnol | | | | | | | |
| Pobl ifanc ddi-waith | | P4 | | | | | |
| Di-waith am gyfnod hir | | P4 | | | | | |
| Aelwydydd digartref | | | | | | | |
| Ffoaduriaid, mudwyr a cheiswyr lloches | | P4 | | | | | |
| Cymdogaethau difreintiedig - Safle MALlC yn y 10% isaf o'r ACEHI mwyaf difreintiedig | | | | | | | |
| Pobl ar Gredyd Cynhwysol / budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm | | | | P4 | | | |
| Oedolion heb gymwysterau neu gymwysterau isel | | | | | | | |
| Pobl sy'n byw mewn tai o ansawdd isel neu mewn Tai Amlfeddiannaeth | | | | P4 | | | |

**1. Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran deilliannau yn ymwneud â'r penderfyniad hwn?**

Fel cynllun 'Addysg', bydd yn lleihau anghydraddoldebau posibl o ran cyfle a chanlyniad mewn addysg drwy gynyddu nifer y lleoedd meithrin yng Nghasnewydd ac ardal Malpas / Betws. Bydd hefyd yn golygu y bydd pob ysgol gynradd yng nghlwstwr Uwchradd Casnewydd yn ysgolion cynradd 3-11. Byddai hyn yn galluogi pontio cadarnhaol i addysg prif ffrwd statudol. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar nodau lles Cymru lewyrchus a Chymru fwy cyfartal a'r amcan lles i wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth.

Bydd y gostyngiad yn y NDC yn lleihau nifer y lleoedd cynradd yng nghlwstwr Casnewydd, ym mis Ionawr 2022 roedd gan Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas 21% o leoedd gwag. Mae'r rhagamcanion disgyblion yn awgrymu erbyn 2026/27 mai dim ond 243 o ddisgyblion fydd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, gan olygu 35.71% o leoedd gwag. Bydd y gostyngiad yn nifer y disgyblion yn ei gwneud hi'n anodd cynllunio a rheoli'r ysgol. Byddai hyn yn cyflwyno heriau wrth reoli'r gymhareb disgyblion i staff a chostau cyflogi athrawon a chynorthwywyr addysgu gyda niferoedd disgyblion isel mewn rhai dosbarthiadau.

Cyngor Dinas Casnewydd yw'r awdurdod derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, a bydd ceisiadau am dderbyniadau yn parhau i gael eu hasesu yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor.

**2. Disgrifiwch sut rydych wedi sicrhau bod eich ymgysylltiad wedi ystyried barn pobl sy'n byw yng Nghasnewydd sy'n cael eu heffeithio gan anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Roedd y wybodaeth am yr ymgynghori ar gael a chafodd ei rhannu â'r holl grwpiau ar draws Casnewydd. Roedd fersiynau o'r dogfennau ar gael ar ffurf lawn ac fel fersiwn gryno hawdd ei darllen wedi ei hanelu at blant a phobl ifanc. Roedd y dogfennau hyn ar gael yn ddigidol ac ar ffurf papur ar amrywiaeth o lwyfannau digidol ar-lein ac mewn lleoliadau amrywiol ledled y ddinas. Ar glawr tu mewn y dogfennau ymgynghori, darparwyd rhestr o ieithoedd y gellid bod wedi cyfieithu'r ddogfen iddynt ar gais. Roedd hyn yn galluogi pobl o bob grŵp i gyrchu'r ymgynghoriad. Mae'r adroddiad ymgynghori sydd wedi'i gyhoeddi yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ynghylch y cynnig, ac fe'i ystyriwyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar wrth benderfynu symud ymlaen i gam rhybudd statudol.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol yn ddigidol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas a darparwyd cyfeiriad e-bost a rhif ffôn os oedd angen i rywun ofyn am gopi caled o'r dogfennau. Roedd trefniadau ar waith i gyfieithu'r hysbysiad statudol i iaith arall yn ôl y gofyn. Gosodwyd copïau caled o'r hysbysiad statudol ar gatiau'r ysgol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas.

**3. A yw'r penderfyniad hwn yn cyfrannu at effaith gronnol?**

Nac ydy

## Rhan 3: Camau Gweithredu a Chanlyniadau

O ystyried unrhyw effeithiau negyddol yr ydych wedi'u nodi, nodwch isod sut y byddwch yn lleihau'r rhain, cynyddu’r potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol, a sut y byddwch yn monitro’r effeithiau hynny. Mae rhagor o ganllawiau ar sut i gwblhau eich cynllun gweithredu ar gael yma.

| **EFFAITH AR BOBL SY'N RHANNU NODWEDDION GWARCHODEDIG** | | | |
|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r effaith** | **Gweithredu i leihau effaith negyddol / cyfleoedd i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | **Sut y caiff yr effaith hon ei monitro** | **Perchennog** |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| **EFFAITH AR Y GYMRAEG** | | | |
| **Crynodeb o'r effaith** | **Gweithredu i leihau effaith negyddol / cyfleoedd i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | **Sut y caiff yr effaith hon ei monitro** | **Perchennog** |
| | | | |
| | | | |
| **EFFEITHIAU ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL** | | | |
| **Crynodeb o'r effaith** | **Gweithredu i leihau effaith negyddol / cyfleoedd i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | **Sut y caiff yr effaith hon ei monitro** | **Perchennog** |
| | | | |
| | | | |
| **EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY** | | | |
| **Crynodeb o'r effaith** | **Gweithredu i leihau effaith negyddol / cyfleoedd i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | **Sut y caiff yr effaith hon ei monitro** | **Perchennog** |
| | | | |
| | | | |

Unwaith y bydd eich AEDCh wedi'i gwblhau, anfonwch ymlaen at nccequality@newport.gov.uk